**<u>Diweddariad ar Wybodaeth Craffu</u>**

**<u>Fformiwla Ariannu Ysgolion</u>**

Fe gaeodd yr ymgynghoriad ar y cynigion newydd i ariannu ysgolion ar Dachwedd 9fed 2012. Mae'r adborth i gyd wedi ei goladu ac mae ymateb manwl yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.

Fe ddarperir ymateb i'r holl bwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad ac fe wneir adolygiadau i'r fformiwla ariannu lle bydd hynny'n briodol.

Bydd y ddogfen ymateb wedi ei rhyddhau erbyn Rhagfyr 3ydd 2012 a bydd yn cynnwys tabl yn dangos elfennau'r fformiwla ddiwygiedig, cyllideb ddangosol ffurfiol ar gyfer 2013-14 a fydd yn adlewyrchu newidiadau o ganlyniad i'r fformiwla newydd, mwy o gyllid o ganlyniad i ddiogelwch cyllideb ysgolion a chyllidebau diweddar gan ddefnyddio'r data ysgolion diweddaraf (nifer disgyblion, prydau ysgol am ddim, arwynebedd llawr etc). Fe ddarperir manylion llawn y diogelwch trosiannol a ragwelir i ysgolion hefyd.

Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi ei gynllunio i gyfarfod ar Ragfyr 11eg 2012 lle'r ystyrir y cynigion diwygiedig. Fe gynigir cyfarfodydd hefyd i ysgolion pan geir cais am hynny i ganiatáu trafodaeth fanylach ag ysgolion lle bo'r angen. Mae'n rhaid derbyn unrhyw adborth pellach i'r fformiwla erbyn Rhagfyr 14eg 2012. Bydd y Tîm Rheolaeth Addysg yn gwneud penderfyniad erbyn Rhagfyr 17eg 2012 ynglŷn ag a ddylid symud ymlaen â'r fformiwla newydd. Fe hysbysir ysgolion yn ysgrifenedig ar Ragfyr 18fed 2012 ar ganlyniad y penderfyniad un ai i symud ymlaen ai peidio.

Pe penderfynid peidio â symud ymlaen yna fe wnaiff y Tîm Cynllunio ac Adnoddau weithio tuag at greu cyllidebau 2013-14 yn Ionawr 2013 yn seiliedig ar yr hen fformiwla ac fe roddir y rhain i ysgolion yn yr wythnos sy'n dechrau Chwefror 4ydd 2013. Os cymeradwyir y cynigion fformiwla yna'r ffigurau dangosol a ryddheir ar Ragfyr 3ydd 2012 fydd y cyllidebau dangosol ffurfiol ar gyfer 2013-14 ac fe all ysgolion ddechrau gweithio yn Ionawr 2013 i adolygu a diwygio eu cynlluniau tymor canolig 3 blynedd.

**Carly Wilson**
**Rheolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau**
**Tachwedd 15fed 2012**